**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Trawsnewid Gwasanaethau Newid yn yr Hinsawdd ac Adfer Natur

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Lilian Hopkin, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Llun, 15 Ebrill 2024 am 3.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd R Fogarty (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | M Baker | S E Keeton |
| H Lawson | A J O'Connor | S J Rice |

**Hefyd yn bresennol**

Y Cynghorydd C Anderson — Aelod y Cabinet dros Gymunedau

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Simon Aspland | Rheolwr y Prosiect |
| Chris Howell | Pennaeth Rheoli Gwastraff |
| Rachel Lewis | Rheolwr y Prosiect |
| Kieran O'Carroll | Cyfreithiwr Cyswllt |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Jane Richmond | Rheolwr Prosiect Strategol Newid yn yr Hinsawdd |
| Mark Wade | Pennaeth Tai ac Iechyd y Cyhoedd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cynghorydd(wyr): O G James a/ac A H Stevens

---

## 33 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

Datganodd y Cynghorydd S J Rice fuddiant personol yng Nghofnod Rhif 36 – Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Trawsnewid Gwasanaethau Newid yn yr Hinsawdd ac Adfer Natur 2023-2024.

## 34 Cofnodion:

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y Pwyllgor Trawsnewid Gwasanaethau Newid yn yr Hinsawdd ac Adfer Natur a gynhaliwyd ar 4 Mawrth 2024 a'u llofnodi fel cofnod cywir.

**35 Strategaeth Gwastraff yn y Dyfodol.**

Dywedodd y Cynghorydd Cyril Anderson, Aelod y Cabinet dros Gymuned, wrth y Pwyllgor fod yr adroddiad anghywir wedi'i gyhoeddi gyda phapurau'r agenda a'i fod yn cael ei dynnu'n ôl o drafodaethau ac y darperir diweddariad llafar.

Rhoddodd Chris Howell, Pennaeth Gwastraff, Glanhau a Pharciau, ddiweddariad llafar i'r Pwyllgor ar Strategaeth Gwastraff y Dyfodol. Yn ogystal â thrafodaethau mewn cyfarfodydd blaenorol, darparwyd diweddariadau ar y treial gwastraff gardd tymhorol, a oedd yn cynnwys treialu gosod deunyddiau ychwanegol ar gyfer casgliadau ymyl y ffordd a chyflwyno cynwysyddion newydd ar gyfer casgliadau ymyl y ffordd.

Eglurwyd bod casgliadau gwastraff gardd wedi cael eu hatal am gyfnod prawf ym mis Rhagfyr 2023 a mis Ionawr 2024, a oedd yn cyd-fynd â'r amser tawelaf ar gyfer casglu gwastraff gardd ac ailgyfeiriwyd adnoddau i ffrydiau gwaith eraill. Roedd y gwasanaeth hefyd yn casglu coed Nadolig ar ddiwedd mis Ionawr 2024. Rhoddir ystyriaeth nawr i weld a ddylai'r treial ddod yn barhaol yn y blynyddoedd i ddod, yn enwedig o ran cadarnhau dyddiadau dechrau/gorffen ac unrhyw ffactorau lliniaru gofynnol.

Yn ogystal, er mwyn gwneud yn fawr o adnoddau, gallai gwastraff gardd gael ei ynysu fel deunydd casglu a chael ei gasglu gyda gwastraff bwyd yn y dyfodol. Byddai hyn yn rhyddhau cerbydau/criwiau os cytunir y dylid dod â chasgliadau gwastraff gardd i ben yn y dyfodol.

Ychwanegodd y byddai treialon o gasglu deunyddiau ychwanegol ar ymyl y ffordd yn cael eu cynnal yn y dyfodol er mwyn penderfynu a oedd yn ymarferol mewn perthynas â deunyddiau ailgylchadwy, i bennu'r symiau dan sylw ac i benderfynu a oedd y gwasanaeth yn gallu cynnwys y casgliadau hyn. Roedd y deunyddiau dan sylw'n cynnwys haenau plastig, cartonau/pecynnau tetra, tecstilau a nwyddau trydanol bach.

Roedd trafodaethau'n parhau gyda Llywodraeth Cymru ynghylch casglu haenau plastig yn yr hydref ac mae'r cyngor wedi gwirfoddoli i gymryd rhan pe bai'r casgliadau hynny'n mynd yn eu blaen. Roedd cynlluniau hefyd ar waith ynglŷn â threfnu'r casgliadau pe byddent yn cael eu cytuno.

Yn dilyn pryder a fynegwyd gan Gynghorwyr, newidiwyd dyluniad y cynhwysydd gwydr a chaniau i gynnwys caead, er mwyn atal y cynnwys rhag dod allan. Roedd y cyngor wedi derbyn grant oddi wrth Lywodraeth Cymru er mwyn eu prynu a byddai'r broses dendro'n dechrau'n fuan. Byddai eu cyflwyniad yn dechrau ar ôl hyn a byddai'n cymryd ychydig fisoedd i'w chwblhau.

Gwnaeth y pwyllgor sylwadau ar y canlynol: -

- Y cynnydd cadarnhaol a wnaed yn gyffredinol.
- Cyfle busnes posib i greu compost o wastraff bwyd, y cytundebau presennol ac archwilio'r holl opsiynau wrth symud ymlaen.

- Pryder am y diffyg adnoddau yn y gwasanaeth ac oedi i gasgliadau a achosir gan fethiannau cerbydau/salwch staff.
- Yr wybodaeth a gafwyd drwy ddod â chasgliadau gwastraff gardd i ben ym mis Ionawr 2024, y potensial am arbedion ychwanegol yn y dyfodol drwy drosglwyddo'r casgliad o wastraff bwyd i gyd-fynd â chasgliadau bagiau du, a ryddhau'r cerbydau/adnoddau gwastraff gardd trwy hynny.
- Yr arbedion a wneir ar fagiau plastig mewn perthynas â gwydr a chaniau a chydnabod y byddai'r casgliad o gynwysyddion yn broses arafach, a bydd angen mwy o adnoddau ar ei chyfer.
- Nod y gwasanaeth yw defnyddio adnoddau'n effeithiol i sicrhau bod y gwasanaeth mor gadarn a chost effeithiol â phosib.
- Newid gwasanaethau casglu drwy gyfnewid casgliadau bagiau du a chasgliadau gwastraff gardd. Byddai hyn yn arwain at gasglu gwastraff bwyd, caniau, gwydr, papur a gwastraff bagiau du gyda'i gilydd. Byddai bagiau pinc, gwastraff bwyd a gwastraff gardd yn cael eu casglu'r wythnos ganlynol.
- Rhaglen ar gyfer dosbarthu'r cynwysyddion caniau plastig a photeli y gellir eu hailddefnyddio.
- Y trefniadau a'r broses bresennol ar gyfer gwerthu compost o wastraff gardd.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelod Cabinet a'r Pennaeth Gwastraff, Glanhau a Pharciau am y diweddariad a nododd y byddai adroddiad diweddaredig yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf a drefnwyd.

## 36 Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Newid Hinsawdd ac Adfer Natur 2023-2024.

Cyflwynodd y Cadeirydd Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Trawsnewid Gwasanaethau Corfforaethol Newid yn yr Hinsawdd ac Adfer Natur 2023-2024, a oedd yn crynhoi'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r rhaglen waith ar gyfer 2023-2024.

## 37 Cynllun Gwaith

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad diweddaredig am y Cynllun Gwaith. Diolchodd i'r Pwyllgor a'r swyddogion am gefnogi'r Pwyllgor drwy gydol y flwyddyn ddinesig.

**Penderfynwyd** nodi cynnwys yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod I ben am 3.27 pm

**Cadeirydd**